Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Ionawr 2021

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-05-1088: Dylid sbarduno is-etholiad ar gyfer Aelodau sy'n dymuno newid eu hymlyniad o ran plaid**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr 2020.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i benderfyniad Aelod i newid ei ymlyniad o ran plaid sbarduno is-etholiad. Mater i'r Senedd, yn hytrach na Chomisiwn y Senedd, yw hyn yn bennaf.

Mae nifer o lwybrau i'w cymryd er mwyn gwneud newid o'r fath. Byddai angen i'r Llywodraeth, un o bwyllgorau'r Senedd, Aelod unigol neu Gomisiwn y Senedd gyflwyno Bil (deddf ddrafft) gyflwyno newid o'r fath.

Cyflwynodd Comisiwn y Senedd Ddeddf Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru) a oedd, ymysg pethau eraill, yn ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 mlwydd oed. Roedd hyn yn dilyn adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol a oedd yn cynghori ac yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn. Fodd bynnag, nid oedd y ddeddfwriaeth hon yn ymdrin yn benodol â newid ymlyniad wrth blaid, ac ni wnaed dim newidiadau i'r ddeddfwriaeth i gynnwys y materion hyn.

Mae'n werth nodi, fel y nodir yn adroddiad y Panel Arbenigol, fod y system ar gyfer llenwi seddau gwag yn wahanol yn achos Aelodau Rhanbarthol ac Aelodau Etholaeth.

Nid oes gan Gomisiwn y Senedd unrhyw safbwynt ffurfiol ar y pwnc yma. Yn ogystal, fe fyddai angen i unrhyw gynnig i gyflwyno Bil ar y mater yma gymryd mewn i ystyriaeth cwestiynau mandad.

Hyderaf fod hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu ymateb i'r deisebydd.

Cofion cynnes,

**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227